



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 Rhif 149 (Cy.33)

2011 No. 149 (W.33)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod
Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol)
(Cymru) (Diwygio) 2011

The Education (School Day and
School Year) (Wales)
(Amendment) Regulations 2011

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig (os cynhelir hwy felly ai peidio). Maent yn darparu (ymhlith pethau eraill) ar gyfer diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu'n ddwy sesiwn (gydag egwyl yn y canol), a bod ysgolion (nad ydynt yn ysgolion meithrin) yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiwnau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003 ("the 2003 Regulations") apply to schools maintained by local authorities and to special schools (whether or not so maintained). They make provision (among other things) for a school day which is ordinarily to be divided into two sessions (with a break in the middle), and for schools (other than nursery schools) to meet for at least 380 sessions during any school year.

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd yn rheoliad 4 o Rheoliadau 2003 i leihau'r nifer lleiaf o sesiwnau ysgol y mae'n rhaid eu cynnal yn y blynyddoedd ysgol 2010-2011 a 2011-2012 o 380 i 378. Yn lle'r hen rheoliad 5 yn Rheoliadau 2003 mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhoi rheoliad 5 newydd sydd, yn fras, yn darparu bod hyd at bedair sesiwn yn y flwyddyn ysgol 2010-2011 i'w cyfrif fel sesiwnau pryd yr oedd yr ysgol wedi cyfarfod os oeddent wedi eu neilltuo i ddarparu hyfforddiant, neu i baratoi a chynllunio, ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir.

These Regulations insert a new paragraph into regulation 4 of the 2003 Regulations to reduce the minimum number of school sessions which must be held in the school years 2010-2011 and 2011-2012 from 380 to 378. These Regulations also substitute a new regulation 5 in the 2003 Regulations which, in broad terms, provides for up to four sessions in the 2010-2011 school year to count as sessions on which the school met if they were devoted to the provision of training, or preparation and planning, for teachers in maintained schools.

2011 Rhif 149 (Cy.33)

2011 No. 149 (W.33)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod
Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol)
(Cymru) (Diwygio) 2011**

**The Education (School Day and
School Year) (Wales)
(Amendment) Regulations 2011**

Gwnaed 25 Ionawr 2011

Made 25 January 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 27 Ionawr 2011

*Laid before the National
Assembly for Wales* 27 January 2011

Yn dod i rym 18 Chwefror 2011

Coming into force 18 February 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 551 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(1) and now vested in them(2), make the following Regulations:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 18 Chwefror 2011.

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2011 and they come into force on 18 February 2011.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Amendment of Regulations

2.—(1) The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003(3) are amended as follows.

(2) Ar ddiwedd rheoliad 4 mewnosoder—

"(7) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (2) at 380 o sesiynau i'w cymryd fel cyfeiriad at 378 o sesiynau mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2010-2011 a'r flwyddyn ysgol 2011-2012."

(2) At the end of regulation 4 insert—

"(7) The reference in paragraph (2) to 380 sessions is to be taken as a reference to 378 sessions in relation to the school year 2010-2011 and the school year 2011-2012."

(1) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "regulations" a "prescribed" gweler adran 579(1).

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weindogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) O.S. 2003/3231 (Cy.311), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy.119) ac O.S. 2008/1739 (Cy.171).

(1) 1996 c.56. Section 551(1A) was inserted by paragraph 39 of Schedule 7 to the Education Act 1997 (c.44), and section 551(2) was amended by paragraph 166 of Schedule 30 and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). For the meaning of "regulations" and "prescribed" see section 579(1).

(2) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) S.I. 2003/3231 (W.311); as amended by S.I. 2006/1262 (W.119) and S.I. 2008/1739 (W.171).

(3) Yn lle rheoliad 5, rhodder—

"5.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y flwyddyn ysgol 2010-2011 a gaiff ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i ddarparu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill), neu baratoi a chynllunio, ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir.

(2) Bydd paragraff (1) yn effeithiol o ran dim mwy na phedair sesiwn ysgol yn nhrydydd tymor y flwyddyn ysgol y mae'r paragraff hwnnw yn gymwys iddi.

(3) Os caiff ysgol, yn ystod tymor cyntaf neu ail dymor y flwyddyn ysgol y mae paragraff (1) yn gymwys iddi, ei hatal rhag cyfarfod oherwydd tywydd gwael, mae nifer y sesiynau ysgol y darperir ar eu cyfer ym mharagraff (2), sef pedair sesiwn, i'w leihau ar gyfer y flwyddyn honno â nifer y sesiynau ysgol pan nad oedd yr ysgol yn gallu cyfarfod (hyd at uchafswm o bedair).

(4) Pan fo paragraff (1) yn gymwys o ran sesiwn ysgol, mae'r sesiwn honno i'w hystyried at ddibenion rheoliad 4 yn sesiwn pryd yr oedd yr ysgol wedi cyfarfod."

(3) For regulation 5 substitute—

"5.—(1) This paragraph applies to any school session falling within the school year 2010-2011 which is devoted (wholly or mainly) to the provision of training (including training attended by both teaching and non-teaching staff and training conducted jointly with other schools), or preparation and planning, for teachers in maintained schools.

(2) Paragraph (1) is to have effect in relation to no more than four school sessions in the third term of the school year in relation to which that paragraph applies.

(3) If, during the first or second term of the school year to which paragraph (1) applies, a school is prevented from meeting due to bad weather, the four school sessions provided for in paragraph (2) are to be reduced for that year by the number of school sessions on which the school was unable to meet (up to a maximum of four).

(4) Where paragraph (1) applies in relation to a school session, that session is to be regarded for the purposes of regulation 4 as a session on which the school has met."

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes,
un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education and Lifelong
Learning, one of the Welsh Ministers

25 Ionawr 2011

25 January 2011

© Crown Copyright 2010

© Crown copyright 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 149 (Cy.33)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod
Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol)
(Cymru) (Diwygio) 2011

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 149 (W.33)

EDUCATION, WALES

The Education (School Day and
School Year) (Wales)
(Amendment) Regulations 2011